



Map Cyfle Coetir (MCC) – Canllaw i Ddefnyddwyr

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut mae'r Map Cyfle Coetir yn gweithio i'ch helpu i benderfynu ble i blannu coetir newydd yng Nghymru.

1.0 Pwrpas

Mae'r canllaw hwn yn esbonio fersiwn newydd porwr y Map Cyfle Coetir (MCC) ar Borthol Daearyddol Llywodraeth Cymru – MapDataCymru. Bydd porwr y gwe-fap yn dangos ble yng Nghymru y mae'r ardaloedd mwyaf addas i greu coetir newydd, gan ddefnyddio data gofodol a Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS). **Mae'n berthnasol i bob cynnig ar gyfer creu coetir**, boed breifat neu gyhoeddus, a chaiff ei ddefnyddio i asesu ceisiadau am grantiau plannu coetir Llywodraeth Cymru a cheisiadau o dan reoliadau coedwigaeth yr EIA. Amcan yr MCC yw sicrhau bod coed yn cael eu plannu yn y mannau iawn gan sicrhau'r manteision mwyaf. Byddwn yn esbonio'r haenau data a hefyd sut i ddefnyddio porwr y gwe-fap i'ch helpu i ddatblygu cynllun rheoli ar gyfer eich cynllun creu coetir. Diben y porwr yw'ch helpu i wneud penderfyniadau, yn hytach na gwneud penderfyniadau drosod chi. Nid yw'r data modelu yn gwneud y tro yn lle ymweliad â'r safle ac astudiaeth ddesg drylwyr gan ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael.



Tabl Cynnwys

1.0 Pwrpas.....	1
2.0 Beth sydd yn y porwr gwe-fapiau hwn?	3
2.1 Haenau Sgorio.....	4
2.2 Haenau sensitifedd	5
2.3 Cyfyngiadau.....	5
2.4 Haenau gwirfoddol.....	5
2.5 Ffiniau gweinyddol	5
2.6 Beth yw'r cysylltiad rhwng y Map Cyfle Coetir a Datganiadau Ardal?	5
3.0 Blae mae'r Map Cyfle Coetir	6
3.1 Dewis Iaith	6
3.2 Agor porwr y Map Cyfle Coetir.....	6
4.0 Nodweddion y Map Cyfle Coetir (MCC).....	7
4.1 Haenau data a'r allweddi	8
4.2 Dewis map sylfaen.....	9
4.3 Chwilio am ardal o ddiddordeb	9
4.3.1 Chwilio am enw'r lle	9
4.3.2 Chwilio gan ddefnyddio'r cod post.....	9
4.3.4 Chwilio gan ddefnyddio cyfesurynnau Hydred/Lledred	11
4.4 Chwyddo/Panio a Gofyn Cwestiwn.....	11
4.5 Offer holi ychwanegol	12
4.5.1 Chwyddo i lenwi'r sgrin	12
4.5.2 Catalog data.....	12
4.5.3 Hidl (ffiltr).....	12
4.5.4 Tabl priodweddau.....	13
4.5.5 Allforio haen data	13
4.5.6 Offeryn cymharu.....	14
4.6 Dewislen opsiynau.....	14
5.0 Offer gwybodaeth i gael mwy o fanylion am haenau	16
5.1 Haen Sensitifeddau wedi'i Chrynhai.....	16
5.2 Sensitifeddau gwaelodol	17
5.3 Sgôr Creu Coetir	20
5.4 Haenau Sgorio'r Cydrannau.....	22

2.0 Beth sydd yn y porwr gwe-fapiau hwn?

Mae'r 'sgôr creu coetir' yn cael ei dangos mewn gwyrdd ar draws Gymru gyfan i ddangos y cyfleoedd gorau ar lefel strategol i greu coetir newydd. Mae'r sgôr yn seiliedig ar haenau o ddata sy'n nodi manteision creu coetir newydd, ac yn cefnogi holl bolisiâu amgylcheddol a choedwigol Llywodraeth Cymru. Gallwch edrych ar yr haenau data unigol sy'n cyfrannu at y sgôr gyffredinol ar wahân neu gallwch eu lawrlwytho bob yn un o fewn y ffolder 'Cydrannau'.

Mae'r MCC yn dangos hefyd yr ardaloedd hynny *allai fod* yn sensitif i goetir newydd a phwy y dylech ei holi i gael rhagor o wybodaeth. Gallwch ddadansoddi'r haenau hyn trwy ddefnyddio offer y gwe-fap i weld a yw'ch cynllun plannu'n gorgyffwrdd ag ardal sensitif. Gallwch lawrlwytho'r setiau data ichi allu eu hastudio ar eich GIS eich hunan, ac mae tudalennau'r 'Catalog Data' yn disgrifio pob haen.

Nid ydym wedi tynnu'r sensitifeddau o'r haenau sgorio fel yn yr MCC blaenorol, hynny fel bod y gwe-fap yn dangos cymaint o wybodaeth â phosibl. Os oes yna sensitifedd, rhaid i gynllunwyr rheoli gysylltu â'r rhanddeiliaid dan sylw er mwyn cael cyngor ar sut i ddylunio'r coetir a lleihau'r effeithiau ar y sensitifedd, ac ichi felly allu bwrw ymlaen â chreu coetir.

Yn gyffredinol, **nid yw'r** haenau sgorio'n dangos lle byddai coetir newydd yn dderbyniol yn awtomatig. Nid yw cael sgôr yn golygu bod gennych yr hawl i blannu. RHAIID i gynllunwyr y coetir edrych a oes ardaloedd sensitif a gwneud yn siŵr eu bod yn lleihau unrhyw effeithiau posibl, fel rhan o'r broses o gydymffurfio â gofynion UKFS.

Ceir rhagor o wybodaeth am rai ardaloedd eraill yng Nghymru ar ffurf haenau 'gwirfoddol' (gweler y ffolder 'Gwirfoddol' ar y gwe-fap). **Nid** yw'r camau sy'n cael eu nodi ynddynt **yn orfodol** ond gallech eu cymryd fel rhan o'ch cynnig i wella cynefinoedd neu nodweddion y dirwedd os hoffech wneud hynny.

Mae ffiniau gweinyddol wedi'u cynnwys hefyd, i chi allu dweud pa awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth archeolegol ac ati y dylech gysylltu â nhw. Nid ydyn nhw'n nodi pwy y dylech gysylltu â nhw ynghylch yr haenau sensitif.

Dylech ddefnyddio'r syllwr hwn ar y cyd â'r llyfryn rheolau creu coetir perthnasol a chanllaw [GN002](#) Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n nodi manylion cyswllt y rhanddeiliaid y mae angen ichi drafod yr haenau sensitif â nhw.

2.1 Haenau Sgorio

Sgôr Creu Coetir (WCS)

Mae'r haen sgorio gyffredinol yn rhoi trosolwg strategol o'r ardaloedd sy'n cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer creu coetir. Mae'r lliw gwyrdd yn mynd yn dywyllach wrth i safle ddod yn fwy addas i greu coetir ynddo h.y. mwya'n y byd o haenau sgorio sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd, mwya'n y byd o fanteision ddaw o greu coetir ar y safle hwnnw

Cofiwch y gallai fod yna fanteision o greu coetir yn y rhannau gwyrdd goleuach hefyd ond efallai na fydd hi mor rhwydd cael grant gan Lywodraeth Cymru ar eu cyfer. Mae'r coetir presennol a chyrff dŵr wedi'u 'tynnu' o'r haenau sgorio a bydd ganddynt sgôr o 0 (gwyn).

Rydym wedi rhestru isod yr haenau data sy'n cael eu defnyddio i roi sgôr gyffredinol i Gymru a gallwch edrych arnyn nhw ar wahân ar borwr y gwe-fap trwy agor yr is-ffolder 'Cydrannau':

- Llygredd Aer - PM2.5; yn sgorio yn ôl gallu'r coed i dynnu llygredd ar ffurf deunydd gronynnol (PM2.5) o'r aer er lles pobl.
- Llygredd Aer - amonia; yn dangos y cyfle i'r coed dynnu llygredd ar ffurf amonia o'r aer.
- Dal Carbon; yn dangos ardaloedd yn eu trefn yn ôl potensial coetir newydd i ddal carbon.
- Llygredd Dŵr Gwasgaredig: yn rhoi sgôr i ardaloedd yn ôl gallu coetir newydd i leihau effeithiau llygredd gwasgaredig ar ansawdd dŵr.
- Lliniaru Llifogydd; yn dangos yr ardaloedd lle disgwylir y gallai creu coetir liniaru llifogydd.
- Tir Di-gyfeir: yn dangos yr ardaloedd nad ydyn nhw'n sensitif i goetir newydd o safbwynt cyfeir.
- Manteision Cymdeithasol: yn dangos yr ardaloedd lle gallai creu coetir gyfrannu at wella iechyd meddwl a chael mwy o bobl i fynd i fannau gwyrdd.
- Pa goed sy'n addas; yn dangos yr ardaloedd lle disgwylir i rywogaethau penodol o goed dyfu'n dda.
- Rhwydweithiau Cynefinoedd Coetir: yn dangos lle anogir plannu coed i sicrhau rhwydweithiau coetir mwy cadarn a gwydn er budd bioamrywiaeth.

Mae pob haen sgorio'n gallu rhoi sgôr o 0 i 5 (heblaw am lygredd aer sy'n mynd i fyny i 2.5 rhag cael ei gyfrif ddwywaith). Rydym yn cyfuno'r sgoriau lle mae'r haenau'n gorgyffwrdd, i gael sgôr gyfun ar gyfer safle penodol. Bydd Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn defnyddio'r haenau hyn i sgorio ceisiadau am grant i greu coetir pan ddaw arian ar gael.

Mae'r haenau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer cynlluniau plannu preifat hefyd gan eu bod yn dangos ble mae'r lleoedd gorau i blannu coetir newydd a'r mannau allai fod yn sensitif i goetir newydd.

2.2 Haenau sensitifedd

Ardaloedd sy'n sensitif i blannu coetir

Mae'r haenau hyn yn dangos yr ardaloedd hynny *allai fod* yn sensitif i goetir newydd ac y dylech wneud mwy o waith ymchwil yn unol â Safon Goedwigoedd y DU ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Mae'r ardaloedd sensitif wedi'u rhannu'n grwpiau i'ch helpu i'w hadnabod:

- Safleoedd archeolegol e.e. henebion rhestredig
- Bio-ffisegol e.e. gwiwerod coch, mawnogydd dwfn
- Dynodiadau Tirwedd e.e. tir comin, Parciau Cenedlaethol.

Dim ond sensitifeddau sydd â setiau data ar gyfer Cymru gyfan sydd wedi'u cynnwys. Mae gan rai ohonynt ardal glustogi'n gysylltiedig â nhw; mae rhai yn ymgorffori ardal glustogi, gan ddibynnu ar natur y data. Cliciwch ar dudalen 'Catalog Data' yr haenau i gael esboniad o bob sensitifedd.

Os oes sensitifedd ar safle lle rydych yn cynnig creu coetir arno, yna dylai cynllunwyr y coetir holi am ragor o wybodaeth er mwyn lleihau'u heffaith arno. Byddai hynny'n caniatáu ichi fwrw ymlaen â phlannu'r coed. Cewch wybod pa gamau i'w cymryd a/neu â phwy y dylech siarad yn [GN002](#).

2.3 Cyfyngiadau

Mae'r haenau hyn yn nodi'r ardaloedd sydd wedi'u tynnu o haenau sgorio'r MCC gan ddangos ardaloedd sydd â chyfyngiadau ffisegol ar unrhyw un sydd am greu coetir (h.y. am fod coed yn yr ardal eisoes neu gorff dŵr). Mae'r categori '*Interpreted Other Area*' o Restr y Goedwig Genedlaethol (e.e. ardaloedd agored/glaswelltir ac ati) wedi'i ddileu o'r set ddata hon ac mae'n bellach yn cynnig sgôr.

2.4 Haenau gwirfoddol

Mater gwirfoddol llwyr yw cadw at yr haenau hyn. Maen nhw'n dangos ardaloedd lle byddai creu coetir o fantais i rywogaeth neu gynefin penodol. Ni fyddai cadw atyn nhw'n effeithio ar sgôr na dilysrwydd cynnig i greu coetir. I gael rhagor o wybodaeth am bob haen, cliciwch ar yr haen a darllen ei thudalen catalog data.

2.5 Ffiniau gweinyddol

Diben yr haenau hyn yw dangos ichi pa awdurdod lleol, cyngor cymuned, ymddiriedolaeth archeolegol ac ati y dylech gysylltu â nhw. Dylech gysylltu â'r rhanddeiliaid yn GN002 o hyd o ran trafod sensitifeddau penodol.

2.6 Beth yw'r cysylltiad rhwng y Map Cyfle Coetir a Datganiadau Ardal?

Bwriad setiau data'r map plannu coetir a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel rhan o WINS (Gwybodaeth am Gymru ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur (WINS) ar gyfer paratoi Datganiadau Ardal yw *dechrau trafodaeth* am blannu coetir newydd. **Nid yw'n cymryd lle** Map Cyfle Coetir Llywodraeth Cymru y dylech ei ddefnyddio wrth ddatblygu'ch cais i Lywodraeth Cymru am grant creu coetir newydd a hefyd ar gyfer ceisiadau o dan Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 yng Nghymru.

3.0 Blaе mae'r Map Cyfle Coetir

Mae'r Map Cyfle Coetir yn cael ei gadw ar MapDataCymru, porthol daearyddol Llywodraeth Cymru o ddata gofodol. Defnyddiwch eich gwe-borwr i gael hyd iddo.



Ffigur 2: Bar chwilio MapDataCymru ichi gael hyd i'r Map Cyfle Coetir

Ond ffordd haws i fynd at y map yw trwy glicio ar y ddolen hon: [Map Cyfle Coetir 2021 | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#).

3.1 Dewis iaith


Bob tro y bydd MapDataCymru ar agor gyda chi, gallwch ddewis y Gymraeg neu'r Saesneg yn ddewis iaith. I newid eich dewis, cliciwch ar y botwm llwyd ar dop y dudalen sydd â'r gair 'Cymraeg' neu 'Saesneg'.

3.2 Agor porwr y Map Cyfle Coetir

Ar ôl agor tudalen hafan MCC [Map Cyfle Coetir 2021 | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#), fe welwch gyflwyniad am ddiben y Map Cyfle Coetir ac e-bost ar gyfer cysylltu â ni os oes gennych gwestiynau (data@llyw.cymru). Dylai'r dudalen hon ddangos hefyd y 'dyddiad lleoliad' sef pan gafodd y map ei ddiweddarau ddiwethaf a ddylai'ch helpu gyda newidiadau yn y dyfodol (Dyddiad creu: 25 Mehefin 2021). I ddefnyddio porwr y map, cliciwch ar y botwm gwyrdd 'Dangos yn y syllwr mapiau'.

4.0 Nodweddion y Map Cyfle Coetir (MCC)


A chithau wedi agor y gwe-fap, mae amrywiaeth o offer ar gael i'ch helpu i ystyried safleoedd posibl ar gyfer creu coetir. Maen nhw wedi'u rhannu'n 6 phrifategori, fel y gwelwch yn y llun isod.



4.1 Haenau data a'r allwedd

Mae'r tabl cynnwys ar ochr chwith sgrin porwr y gwe-fap yn rhestru'r holl haenau data ar yr MCC, wedi'u crynhoi'n ffolderi ac is-ffolderi i'ch helpu i fynd o un i'r llall yn rhwydd. Mae'r ffolderi'n cyfateb i'r esboniadau a roddwyd yn adran 2 y ddogfen hon. Mae'r pwyntiau bwled isod yn esbonio beth mae popeth yn y tabl cynnwys yn ei wneud, ac mae Ffigur 4 yn dangos hyn i chi ar ffurf graffig.

- I agor ffolder: cliciwch ar y ffolder glas sgwâr ar ochr dde enw'r ffolder.
- I droi haen ymlaen: cliciwch ar symbol y llygad wrth unrhyw haen i'w throï ymlaen. Mae llinell trwy lygad yn dangos bod yr haen wedi'i diffodd. Pwysig: ni fydd y 'Sgôr Creu Coetir' na haen y 'Sensitifeddau wedi'i chrynhoi' yn ymddangos ar y map nes i chi chwyddo i <1:100,000 gan eu bod yn rhy gymhleth i'w dangos ar raddfa lai.
- Newid eglurder yr haen: Cliciwch ar y blwch sy'n dweud '100%' o dan deitl yr haen ac wrth ei lusgo i'r chwith, bydd yr haen ar y map yn mynd yn fwy tryloyw.
- Ychwanegu haen: cliciwch ar eicon + yr haen ac fe welwch far chwilio ichi allu ychwanegu unrhyw haenau o gatalog cyfan MapDataCymru.



Ffiigur 4: Beth gallwch ei wneud yn y tabl cynnwys

4.2 Dewis map sylfaen

Gallwch newid y map sylfaen yn mhorwr yr MCC i fod yn fap du a gwyn, yn fap Arolwg Ordnans, yn llun o'r awyr, neu os ydy'r sgrin yn rhy brysur, gallwch ddewis map sylfaen gwag. I ddewis eich map sylfaen, cliciwch ar symbol y map sgwâr yng nghornel chwith isaf y gwe-fap a chlicio ar y math o fap rydych am ei ddefnyddio, fel y dangosir yn Ffigur 5.



Ffigur 5: Ffenest dewis map sylfaen


4.3 Chwilio am ardal o ddiddordeb

Mae sawl ffordd o chwilio am ardal o ddiddordeb. Y ffordd hawsaf yw chwilio'r map trwy banio a chwyddo (zwmio). Byddwn yn esbonio hyn yn fanylach yn adran 4.4. Os nad yw hyn yn help e.e. dydych chi ddim yn siŵr ble yng Nghymru y mae'r ardal, mae 4 ffordd arall o chwilio am yr ardal:

- Chwilio am enw'r lle
- Chwilio gan ddefnyddio'r cod post
- Chwilio gan ddefnyddio'r Cyfeirnod Grid
- Chwilio gan ddefnyddio cyfesurynnau hydred/lledred

4.3.1 Chwilio am enw'r lle

Yn y bar chwilio yng nghornel dde ucha'r sgrin, teipiwch enw lle a dewiswch un o'r enwau sy'n ymddangos yn y gwymplen. Mae'r enghraifft yn Ffigur 6 yn dangos y porwr yn chwilio am Aberystwyth.



Ffigur 6: Chwilio am enw lle

4.3.2 Chwilio gan ddefnyddio'r cod post

Gallwch chwilio hefyd gan ddefnyddio'r cod post. Gofalwch eich bod yn gadael bwlch rhwng dau ddarn y cod post neu ni wnaiff weithio. Ar ôl ichi fwydo'r cod post, cliciwch ar yr eitem a chael hyd i bwynt canol y cod post, fel yn Ffigur 7.




Ffigur 7: Chwilio gan ddefnyddio'r cod post

4.3.3 Chwilio gan ddefnyddio cyfeirnod y Grid Cenedlaethol

Mae ffordd o chwilio gwe-fap yr CMM gan ddefnyddio Cyfeirnod y Grid Cenedlaethol ond ar hyn o bryd, mae ychydig bach yn gymhleth. Mae gennym gynlluniau i'w wneud yn haws ond am y tro, rhaid dilyn y broses hon. Fel arfer, mae gan gyfeirnodau'r Grid Cenedlaethol ragddodiad dwy lythyren ac yna 6 rhif (yn gywir hyd at 100m). Er enghraifft SN 321 321. Ond ar yr MCC, yn lle llythrennau, defnyddir rhifau. Yng Nghymru, mae 8 rhagddodiad 2 lythyren yn bosibl. Rydym yn eu dangos yn y tabl yn Ffigur 8.

I gael hyd i offeryn chwilio'r grid cenedlaethol ar yr MCC, cliciwch ar y 3 llinell ddu yn y bar chwilio (yn union i'r chwith o'r blwch glas yng nghornel dde ucha'r sgrin). Yn Ffigur 8A, maen nhw'n ymddangos fel blwch coch gyda'r llygodyn yn hofran drostyn nhw. Cliciwch ar y llinellau, ac yna 'Chwilio yn ôl Cyfesurynnau' (Ffig. 8B). I droi'r cyfesurynnau'n rhai Grid Cenedlaethol, cliciwch ar eicon y cog a chlicio ar 'Grid Cenedlaethol Prydain' (Ffig. 8C).



Llythrennau cyfeirnod y Grid Cenedlaethol	Gogleddiad Dwyreiniad,
SH	2,3
SJ	3,3
SM	1,2
SN	2,2
SO	3,2
SR	1,1
SS	2,1
ST	3,1

**E.e. NGR: SN 321 321
= : 232100, 232100**

Ffigur 8: Chwilio am Grid Cenedlaethol Prydain

Unwaith y bydd blwch chwilio Grid Cenedlaethol Prydain i'w weld, gallwch nodi'r dwyreiniad a'r gogleddiad. Gan ddefnyddio'r enghraifft o gyfeirnod y Grid Cenedlaethol SN 321 321, mae'r rhagddodiad 'S' yn troi'n 2 a'r 'N' yn troi'n 2 (gweler


y tabl yn Ffig. 8). Felly dylid rhoi 232100 ym mlwch y Dwyreiniad, a 232100 ym mlwch y Gogleddiad.

4.3.4 Chwilio gan ddefnyddio cyfesurynnau Hydred/Lledred

Wrth chwilio am Hydred/Lledred, defnyddir Graddau Degol (e.e. byddai 52.41, -4.07 yn mynd â chi i Aberystwyth). Ond, adeg sgrifennu hwn, nid oedd yr offeryn hwn yn gweithio gan nad yw'n bosibl nodi symbolau lleoedd degol na'r symbol -. Bydd hyn yn debygol o ddechrau gweithio yn y misoedd nesaf.

4.4 Chwyddo/Panio a Gofyn Cwestiwn

I banio o gwmpas y map, llusgwch y map trwy glicio a dal y llygoden ar sgrin y prif fap, a gallwch ddefnyddio'r botymau chwyddo mwy a chwyddo llai i glosio neu i ymbellhau, fel yn Ffigur 9A. Os cliciwch ar y tri smotyn gwyn o dan y botymau zwmio, fe welwch ddewislen o bethau eraill y gallwch eu gwneud, fel yn Ffigur 9B.




Ffigur 9: Defnyddio'r offeryn chwyddo (zwmio)/panio

Ceir offer eraill hefyd:

- Ehangu'r map fel ei fod yn llenwi'r sgrin (pwyswch ar y botwm Esc ar eich bysellfwrdd i leihau'r map).
- Mynd yn ôl i'r map blaenorol roeddech chi'n edrych arno neu ymlaen i weld map rydych newydd ei adael.
- Zwmio allan cymaint ag y medrwch (i weld Cymru gyfan)
- Offeryn gwybodaeth, sy'n rhoi gwybodaeth am yr haenau data – ei droi ymlaen/i ffwrdd
- Graddfa - gallwch ofyn am gael gweld hwn a'i nodi. Mae rhai haenau data ond ar gael ichi eu gweld ar raddfa benodol (bydd Sgôr Creu Coetir a'r haen Sensitifedd wedi'i chrynhof yn ymddangos ar raddfa o <1:100,000 yn unig – mae'r haenau hyn yn rhy gymhleth i'w dangos ar raddfa genedlaethol)

4.5 Offer holi ychwanegol

Wrth glicio ar haen yn y tabl cynnwys, fe welwch ddewis o offer ychwanegol, fel yn Ffigur 10. Fel y gwelwch, mae teitl yr haen ‘Sgôr Creu Coetir’ wedi troi’n las, gan ei fod wedi cael ei ddewis trwy glicio’r llygodyn arno, gan danio’r arfau ychwanegol – 1 i 6. Rydych chi’n esbonio’r 6 erfyn yn adran 4.5.1 – 4.5.6 isod.



Ffigur 10: Yr arfau ychwanegol sydd ar gael wrth glicio ar haen

4.5.1 Chwyddo i lenwi’r sgrin: Chwyddo hyd eithaf yr haen rydych chi’n dewis

4.5.2 Catalog data: Dolenni at fetadata am yr haen benodol honno – sef ble gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am yr haen dan sylw, fel cyfyngiadau trwyddedu neu beth mae’r haen yn ei ddangos. Mae Ffigur 11 yn dangos enghraifft gan ddefnyddio set ddata ‘Sgôr Creu Coetir’.




Ffigur 11: Tudalen catalog data ar gyfer yr haen ‘Sgôr Creu Coetir’

4.5.3 Hidl (ffiltr): Yn agor dewislen arall sy’n caniatáu i chi hidlo’r haen data rydych chi’n dewis, er enghraifft, ar ardal rydych chi’n tynnu’i hamlinell hi o fewn yr haen, fel yn adran 4.6 isod.

4.5.4 Tabl priodweddau: Yn agor tabl manwl ar gyfer yr haen honno, gan ddangos gwybodaeth testun os yw ar gael, fel yr ystod o sgoriau (0-5) neu restr o safleoedd sensitif fel Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA'au).

4.5.5 Allforio haen data: mae'r botwm hwn yn caniatáu ichi lawrlwytho'r haen rydych wedi'i dewis o'r tabl cynnwys, mewn fformat GIS, i'ch cyfrifiadur. Pan fyddwch wedi clicio ar yr haen a'i throï'n las, cliciwch ar y botwm allforio i agor sgrin allforio arall (Ffigur 12A).




Ffigur 12: Sgrin allforio data GIS, yr opsiwn 'tocio'r set ddata yn ôl y map sydd ar y sgrin

Pan welwch y sgrin 'Allforio Data', dewiswch eich fformat GIS. Bydd GeoJSON yn gweithio gyda meddalwedd GIS ffynhonnell agored a siapffeiliau mewn ESRI GIS (Ffigur 12B).

Pwysig: Mae angen cofio na all MapDataCymru lawrlwytho mwy na 1 miliwn o nodweddion. Er mwyn i'w elfen liniadu fod mor effeithiol â phosibl, mae'r haen 'Sgôr Creu Coetir' wedi'i rhoi ar deilsen, sy'n golygu fod ganddi 2.8 miliwn o nodweddion. Felly, os ydych am lawrlwytho set ddata'r Sgôr Creu Coetir, bydd angen ichi ddewis 'Tocio'r set ddata yn ôl y map sydd ar y sgrin' wedi ichi zwmio i mewn i'r ardal sydd o ddiddordeb i chi (Ffigur 12C), i wneud yn siŵr nad oes mwy nag 1 miliwn o nodweddion wedi'u lawrlwytho.


Wedi ichi glicio ar yr opsiwn allforio ar y sgrin 'allforio data', byddwch yn gweld eicon allforio yng nghornel dde isa'r sgrin, fel yn Ffigur 13A.



Ffigur 13: Allforio ffeil GeoJSON (A), a'i harbed ar eich cyfrifiadur (B).

Pan welwch yr eicon allforio, cliciwch arni a dewis yr eicon arbed (safio) (Ffigur 13B). Trwy wneud hynny, byddwch yn lawrlwytho'r set ddata ac yn ei harbed yn ffolder lawrlwytho'ch cyfrifiadur.

4.5.6 Offeryn cymharu: Ar ôl clicio ar y botwm (Ffigur 14A), byddwch yn gweld offeryn 'sweipio' i chi allu gweld y map sylfaen yn well (Ffig 14B).




Ffigur 14: Yr offeryn cymharu wedi'i ddewis, a'r eglurder wedi'i ostwng ichi allu gweld y map sylfaen yn well

Cliciwch eich llygoden ar y saethau (Ffig 14B) a llusgwch yr offeryn sweipio i'r chwith neu i'r dde ichi allu gweld yr haen ar y lefel briodol. Trwy leihau eglurder yr haen, byddwch yn gallu gweld gwybodaeth arall o dan yr haen (ffig 14C).

4.6 Dewislen opsiynau

Rydym wrthi'n datblygu'r ddewislen hon a daw yn fwy defnyddiol gydag amser. Ond mae'r offeryn 'Mesur' yn gallu bod yn ddefnyddiol i fesur llinellau neu arwynebeddau ar safle o ddiddordeb.

I ddefnyddio hwn, cliciwch ar y blwch glas sydd â thair llinell wen, yng nghornel dde ucha'r sgrin. Byddwch yn gweld y ddewislen fel sydd yn Ffigur 15A. Cliciwch ar 'Mesur' i'w ddefnyddio (Ffigur 15B).




Ffigur 15: Defnyddir yr offeryn mesur (A+B) i fesur llinell (C) ac yna i'w hallforio (D) neu ei harbed yn yr MCC (E)

Ar ôl agor y ddewislen, cliciwch ar 'mesur pellter' (i fesur hyd ffens er enghraifft) neu arwynebedd (i fesur coetir gaiff ei greu) a chliciwch y llygoden i ychwanegu ochrau, a dwbl-glicio'r llygoden i orffen y siâp. Mae'r enghraifft yn Ffigur 15C yn dangos ffens mae'r offeryn wedi cyfrif sy'n 217m o hyd.

Ar ôl cwblhau'r llinell neu'r arwynebedd, gallwch naill ai ei hallforio fel GeoJSON er mwyn ei chynnwys yn eich GIS eich hun trwy glicio ar yr eicon 'Allforio i GeoJSON' (Ffigur 15D) neu ei hychwanegu at yr MCC fel haen fydd yn aros am y sesiwn (Ffigur 15E).

Os byddwch yn dewis arbed y siâp yn yr CMM (Ffigur 15E), gallwch gael hyd iddo yn nhabl y cynnwys, lle bydd nawr yn ffolder 'Diofyn' ychwanegol. Ar ôl agor y ffolder hon trwy glicio ar eicon y ffolder las, byddwch yn gallu gweld y mesur a gallwch ei drin fel unrhyw haen arall yn y map (Ffigur 16).




Ffigur 16: Mesur pellter gafodd ei luniadu yn yr MCC a'i ychwanegu fel haen fydd yn cael ei harbed am y sesiwn ar y gwe-fap

5.0 Offer gwybodaeth i gael mwy o fanylion am haenau

5.1 Haen Sensitifeddu wedi'i Chrynhoi

Gan ddefnyddio'r Haen Sensitifeddu wedi'i Chrynhoi, mae Ffigur 17 yn dangos sut y mae defnyddio'r offeryn gwybodaeth i gael mwy o fanylion am haen sydd yn y tabl cynnwys. **Rhaid** wrth raddfa o $<1:100,000$ i allu gweithio ar yr haen Sensitifeddu.



Ffigur 17: yr MCC yn dangos yr haen Sensitifeddu wedi'i chrynhoi, a'r offeryn gwybodaeth yn y man a ddewiswyd


I weld pa sensitifeddu sydd mewn lleoliad penodol, chwyddwch yr ardal o ddiddordeb, a sicrhau bod y raddfa yn llai na 1:100,000. Trowch yr haen Sensitifeddu wedi'i chrynhai ymlaen drwy glicio ar y llygad (Ffigur 17A). Gallwch glicio hefyd ar y saeth am i lawr yn y tabl cynnwys i gael gweld yr allwedd (Ffigur 17B). Mae'r allwedd hon yn aml yn rhy fach i'w darllen os oes llawer o haenau wedi'u cyfuno. Felly, ar gyfer yr haen Sensitifeddu wedi'i chrynhai (sef y cymhlethaf ohonynt), er mwyn gallu gweld symbolau pob haen yn fanylach, cliciwch ar fotwm chwith y llygodyn ar y pwynt o ddiddordeb yn y map (Ffigur 17C), a bydd y blwch gwybodaeth am y nodwedd yn ymddangos ar ochr dde'r sgrin.

Wrth ddefnyddio'r haen Sensitifeddu wedi'i chrynhai (yn unig), bydd y symbolau sy'n berthnasol i'r pwynt o ddiddordeb yn ymddangos fel blychau lliw (Ffigur 17D). I weld tudalen catalog data pob un o'r haenau a restrir, cliciwch ar 'Dolen' (Ffigur 17E). Gallai'r offeryn sweipio (Ffigur 17F) hefyd fod yn ddefnyddiol yma i weld mwy o fanylion o dan gymhlethdod yr haen Sensitifeddu wedi'i chrynhai.

Byddai'n syniad da i chi glicio ar sawl pwynt o amgylch y safle plannu arfaethedig gan fod rhai o'r haenau data o fewn yr haen Sensitifeddu yn fach, ac mae'n bosibl bod haenau eraill yn eu cuddio. Mae gweld gwybodaeth fesul ardal yn hytrach na fesul pwynt yn offeryn rydym wrthi'n ei ddatblygu.

5.2 Sensitifeddu gwaelodol

Ar ôl gweld pa sensitifeddu sydd yn yr haen Sensitifeddu wedi'i chrynhai, cewch fwy o wybodaeth am bob un yn yr haenau unigol. Mae'r haenau hyn wedi'u rhannu'n 3 is-ffolder er mwyn ichi allu mynd o un i'r llall yn haws, fel yn Ffigur 18.




Ffigur 18: Ffolder haenau'r sensitifeddu

Mae'r setiau data'r holl sensitifeddu i'w gweld yn yr haen 'Sensitifeddu wedi'i chrynhai'. Dim ond ar raddfa o <1:100,000 y mae hon i'w gweld.

I weld mwy o fanylion pob un o'r haenau, fe'u gwelwch yn y 3 is-ffolder ar y chwith, yn Ffigur 18. Cliciwch ar yr eicon y ffolder las i'r dde o deitl yr is-ffolder i agor y ffolder a gweld y setiau data.


Byddai'n syniad da ichi ddefnyddio'r haenau unigol i fod yn siŵr nad yw'r haenau'r sensitifeddu llai wedi'u cuddio yn yr haen 'Sensitifeddu wedi'i chrynhai' ac nad ydych wedi colli unrhyw beth.

Gan ddefnyddio'r enghraifft yn Ffigur 19, os byddwn yn defnyddio'r haen 'Sensitifeddu wedi'i chrynhai' mewn ardal o ddiddordeb ddychmygol ar gyfer coedwigo, fe welwn 4 haen sensitifedd.




Ffigur 19: Safle dychmygol o ddiddordeb, yn dangos y sensitifeddu sydd yn yr haen 'Sensitifeddu wedi'i chrynhai'

Rhaid ystyried pob un o'r 4 sensitifedd yn ei thro a holi barn yr awdurdod priodol. Ond pe bawn am weld mwy o fanylion am y set ddata 'Mosaigau Cynefin â Blaenoriaeth – Angen Ymchwiliad' er enghraifft, gallwn ddiffodd set ddata'r haen 'Sensitifeddu wedi'i chrynhoi' i glirio'r sgrin ac yna agor yr is-ffolder Safleoedd Bioffisegol i weld yr haen unigol hon, fel yn Ffigur 20.



Ffigur 20: Safle o ddiddordeb dychmygol yn dangos haen y Cynefin Mosaigau â Blaenoriaeth


Gan glicio ar symbol y llygad i droi'r haen ymlaen, gallwch wedyn glicio yn y map ac fe welwch yr offeryn gwybodaeth am nodweddion yr ardal honno ar ochr dde'r sgrin. Fel yn Ffigur 20, bydd y pin lleoli glas wedi'i guddio gan set ddata'r 'Mosaigau Cynefin â Blaenoriaeth – Angen Ymchwiliad', a'r union fath o gynefin sy'n bresennol o fewn y nodwedd yw Trylifiadau, Ffeniau a Chorsydd ar Dir Uchel'. Os byddwch yn clicio ar deitl yr haen yn y tabl cynnwys i'w droi'n las, byddwch wedyn yn gallu agor tudalen y catalog data i weld mwy o wybodaeth am yr haen honno (Ffigur 21).



Ffigur 21: Cynefin Mosaigau â Blaenoriaeth – yn dangos y botwm catalog data

5.3 Sgôr Creu Coetir

Caiff Cymru gyfan ei sgorio o 0 i 38, yn ôl potensial yr ardal i gyflawni amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru o ran creu coetiroedd – plannu'r goeden iawn yn y lle iawn. Pennir y sgôr hon gan faint o gydrannau'r haenau sgorio, bob un â'i sgôr unigol (0-5), sy'n gorgyffwrdd. I bennu'r sgôr mewn ardal o ddiddordeb, ewch i'r ardal a'i chwyddo. Dim ond pan gaiff ei chwyddo i <1:100,000 y gellir gweld y Sgôr Creu Coetiroedd (WCS). Dangosir enghraifft o hyn yn Ffigur 22.



Ffigur 22: Sgôr Creu Coetir – yr haen sgorio gyffredinol, gyda'r offeryn gwybodaeth am nodweddion i weld sgôr y safle o ddiddordeb

I droi'r haen ymlaen, cliciwch ar symbol y llygad (Ffig 22A). Cliciwch ar y saeth am i lawr i weld yr allwedd sgorio (Ffig 22B). Gallwch ei wneud yn fwy tryloyw i weld y map sylfaen, neu unrhyw haenau data eraill sydd hefyd wedi'u troi ymlaen (Ffig 22C). Gall yr offeryn sweipio helpu hefyd i weld y data oddi tano (Ffig 22D). Pan fydd y map yn barod fel yr ydych ei eisiau, cliciwch ar deitl yr haen yn y tabl cynnwys i'w droi'n las – mae angen gwneud hyn i danio'r offeryn gwybodaeth am nodweddion. Gallwch wedyn glicio ar bwynt o ddiddordeb (Ffig 22E) a byddwch yn gallu gweld y Sgôr Creu Coetir ar ochr dde'r sgrin (Ffig 22F).

5.4 Haenau Sgorio'r Cydrannau

Ar ôl gweld beth yw Sgôr Creu Coetir eich safle o ddiddordeb, gallwch wedyn, os hoffech, ddadansoddi'r sgôr trwy edrych ar y 9 haen sgorio yn y ffolder Cydrannau. Ar sail yr un ardal ag yn Ffigur 22, mae'r cydrannau yn Ffigur 23 hefyd yn cynnig sgôr o 27.5.



Ffigur 23: 8 o'r 9 cydran sgorio sy'n rhoi Sgôr Creu Coetir o 27.5 (Nid oedd sgôr i'r haen Llygredd Dŵr Gwasgaredig yn y lle hwn, felly nid ydym wedi'i chynnwys)

O fewn ffolder 'Cydrannau' porwr y gwe-fap, gallwch droi pob un o'r haenau sgorio ymlaen i'w gweld, neu ei lawrlwytho i'ch GIS chi. Dyma'r setiau data sylfaenol sy'n cyfuno i roi Sgôr Creu Coetir gyffredinol. Mae'r haenau hyn yn bod i sicrhau bod y ffordd y mae'r system sgorio'n gweithio mor glir â phosibl i'r defnyddiwr, ac nid oes ganddynt sgôr ychwanegol. Gallwch ddefnyddio tudalen y catalog data i weld rhagor o wybodaeth am bob un o'r haenau sgorio. Fe welwch sut i gael hyd i dudalen y catalog data yn Ffigur 21.

Ymholiadau: alex.harris@gov.wales